# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 28 Ebrill 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, S Gareth Owen, William N Owen, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Dafydd Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, John Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, Geraint Wigley.

Cychwynwyd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Gwenfair Davies yn cydymdeimlo gyda Cyng Gareth Wyn Jones a teulu Coed Ddol, Llanwrin, ar golli ei chwaer Ellyw, ac hefyd gyda Cyng William N Owen a teulu Abernant, Llanwrin ar colli ei chwaer yng nghyfraith, Eirian Jones, Pumwern, Pennal.

**16.24. Cofnodion cyfarfod 31 Mawrth 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.25. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.23.1 Gwasanaeth Ysbwriel ac Ailgylchu Bore Sadwrn ym Machynlleth. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan ei fod ef a Cyng Michael Williams o Fachynlleth wedi cael cyfarfod gyda Cyng John Powell o Gyngor Sir Powys i trafod y sefyllfa. Mae'n debyg fod y Cyngor Sir yn awyddus i torri lawr neu dileu y gwasanaeth yn y Maes Parcio ym Machynlleth pob Bore Sadwrn. Mi fydd adroddiad yn cael ei ystyried gan y Cyngor Sir cyn bo hir.
16.23.2. Dyfodol Iard Cyngor Sir Powys yn Llanbrynmair. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod penderfyniad ar dyfodol y iard yn Llanbrynmair wedi cael ei gohirio.
16.23.3. Ffordd Cwmeidrol. Cadarnhaodd y Clerc fod y coeden oedd yn creu problem gyda hollt ar hyd ochr y ffordd wedi cael ei cwmpo. Mi fydd rhaid cadw golwg gyda'r sefyllfa gyda'r hollt ar hyd ochr y ffordd.
16.23.4. Cyflwr y fainc ar Y Sgwar yn Llanwrin. Cadarnhaodd y Clerc fod Cyng Deryck Lewis wedi ymweld a'r fainc a mi fydd rhaid adnewyddu y gwaith pren i gyd. Mi fydd yn mynd ati i gwneud hyn dros cyfnod yr haf.
16.23.6 Arwyddion Pentef Cwmlline. Cadarnhaodd Cyng Ann Williams fod yr arwydd oedd wedi dymchwel wedi cael ei ail godi gan y Cyngor Sir.
16.23.7. Pryderon am y sefyllfa gyda llogi ymweliad ym Meddygfa Glantwymyn. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi ysgrifennu llythr at Mrs Marilyn Shields, Rheolwr y Meddygfa, ynglyn pryderon y Cynghorwyr.

**16.26. Cynllunio.**
26.1 P/2016/0066 Datblygid yn cynnwys 18 ty newydd ar tir ger Era Terrace, Ceinws, Machynlleth. Eglurwyd mae hwn oedd safle y cyn Commissiwn Coedwigaeth yng Ngheinws. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod yna pryderon am maint y datblygiad ar y safle. Cytunwyd gwrthwynebu y datblygiad a gofyn am rhagor o wybodaeth am y manylion.
26.2 P/2016/0360 Newidiadau i'r to, Bryngwawr, Abercegir, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.
26.3 P/2016/0401 Codi adeilad trydan ynglyn y datblygiad melin wynt ar tir ger Aberffrydlan, Llanwrin, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.

**16.27. Eitemau i'w talu.**
27.1 Llogi ystafell yng Nghanolfan Glantwymyn am y cyfnod Medi 2015 i Awst 2016. Cytyunwyd taliad o £110-00.

**16.28. Gwefan.**

28.1 Eglurodd y Clerc ei fod wedi ymweld a swyddfeydd GloverSure yn y Trallwm i cael ychydig o hyfforddiant i gynal gwefan y Cyngor Cymuned ac ei fod yn gobeithio cychwyn gwaith ar y gwefan cyn bo hir.

**16.29. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**

29.1 Un Llais Cymru. Eglurodd y Clerc ei fod wedi mynychu cyfarfod rhanbarthol Un Llais Cymru yng Nghastell Caereion yn ddiweddar a rhoddodd cryndoeb o'r busnes trafodwyd yn ystod y cyfarfod.

**16.30. Gohebiaeth.**

30.1 E-bost gan Llywodraeth Cymru ynglyn Fframwaith Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd.
30.2 E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, yn gofyn am cynigion ar gyfer Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru.
30.3 E-bost gan Melanie Amor, Cyngor Sir Powys, ynglyn cynlluniau sbwriel ac ailgylchu dros Gwyliau y Banc ym Mis Mai.
30.4 E-bost gan Mrs Susan Simpson, Cyngor Sir Powys, ynglyn manylion ymgynghoriad ar y gwasanaeth llyfrgelloedd ym Mhowys.
30.5 E-bost gan Chi Ling, Prifysgol Caerdydd, ynglyn ymgynghoriad ar cyfathrebu yn electronig i Gynghorau Cymunedol.
30.6 E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, ynglyn diweddariad i'r Model Rheoliadau Ariannol i Gynghorau Cymunedol.
30.7 E-bost gan Mr Carl Cooper, PAVO, ynglyn dyfodol gwasanaethau i'r ieuenctid ym Mhowys.
30.8 E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, ynglyn ac ymgynghoriad ar Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r hyny mae'n ei olygu i archwiliad Cynghorau Cymunedol.
30.9 E-bost gan Andrea Blayney, Cyngor Iechyd Cymuned Powys, ynglyn a grwpiau trafod gofal cleifion diabetes.
30.10 Gohebiaeth gan Grant Thornton ynglyn trefniadau newydd i'r archwiliad.
30.11 Llythr gan Mr Dafydd Jones, Prifathro Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth. Rhoddodd Cyng Gwilym Fychan ychydig o wybodaeth ar cefndir y sefyllfa.

**16.31. Unrhyw fater arall.**

31.1. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan fod yna pryder am siannel sydd wedi cael ei greu ar draws y ffordd ger Tynant, Darowen. Mi fydd yn cael gair gyda swyddogion y Cyngor Sir am y sefyllfa.
31.2 Eglurodd Cyng Willim N Owen fod yna problemau yn cynyddu gyda ysbwriel ger ochr y ffordd ger Glandulas Bach, ac hefyd wrth y Llyn Bach yng Nghwm Ffrydlan. Awgrymodd Cyng Gwenfair Davies ddylid cadw rhestr o lefydd lle mae'r problemau yma yn datblygu.
31.3 Eglurodd Cyng Huw Williams fod yna problem hefyd yn datblygu gyda ochr y ffordd ger mynediad Glandulas Bach gyda cerrig yn disgyn i'r cae.
31.4 Eglurodd y Clerc fod Cyng Deryck Lewis wedi codi sylw at arwydd llwybr cyhoeddus sydd wedi mynd ar goll ger y Capel yn Cwmlline.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 26 Mai 2016.**